

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR ADNODDAU
NOS Fawrth
19^{eg} IONAWR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:

Cynghorwyr:

Erwyn Jones - Cadeirydd
Rory Francis
Kevin Baldwin
Bedwyr Gwilym
Gareth W Jones

Ymddiheuriad:

Cynghorydd:

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gyngorydd Datgan Diddordeb

1. Cyfrifon 2015 - 2016
Argymhelliad: - Derbyniwyd i'r cyfrifon fod yn gywir
2. Cyfrif Banc
Cafwyd gwybodaeth parthed telerau HSBC ar gyfer cyfrifon y Cyngor. Mi fydd yr HSBC yn codi llogau oddeutu £300 y flwyddyn am redeg y cyfrif gan fod y Cyngor yn troi drosodd mwy na £100,000
Argymhelliad: - I ysgrifennu at fanc yr HSBC gan egluro ein bod yn ystyried symud ein cyfrifon yno er mwyn cefnogi'r unig fanc yn y dref. Gofyn i'r HSBC gadarnhau nad oes ganddynt gynlluniau i gau'r gangen yma yn y Blaenau.
3. Yng nghyfarfod arferol o'r Cyngor Tref nos Iau 14eg o Ionawr 2016 bu i'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym roi cynnig ymlaen a gafodd ei eilio sef - Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn nifer o glybiau, mudiadau, a gweithgareddau diwylliannol a hamdden yn ein cymuned. Gyda hynny mewn golwg, 'rwyf yn galw ar y Cyngor Tref i gydnabod ac i ddathlu'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr drwy sefydlu gwobrau 'Gwirfoddolwr y flwyddyn'. Nid yn unig fydd hyn yn dweud diolch, ond yn gyfle hefyd i hybu gwirfoddoli, gan annog eraill i wirfoddoli yn y gymuned.
Argymhelliad: - Bu I'r Is-Bwyllgor drafod hyn a chytuno i argymhell 5 gwobr a threfnu cyngerdd ar gyfer y gwobrwyo gyda'r dyddiad i'w drafod eto.
4. Praesept 2016-2017
Argymhelliad: - Cytunwyd i drafod Sgwâr Rawson ymhellach mewn Is-Bwyllgor Mwynderau i'w gynnal Nos Iau 21ain o Ionawr 2016 ac i ofyn i Mr Howard Bowcott beth yw gwerth y gwaith celf ar gyfer yswiriant.
Bu i'r Is-Bwyllgor wneud argymhellion ar gyfer praesept 2016-2017 fel a ganlyn sydd yn golygu codiad o 50ceinig yr wythnos ar Band D

